PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Arolygiadau Safle)

13 Chwefror 2023

Yn bresennol: Dr M Havard (Cadeirydd)
Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd Mrs V Thomas a'r Cynghorydd C Williams.

Swyddogion yn Bresennol: Ms K Attrill a Mrs C Llewellyn (Cofnodion).

(Arolwg Safle: 10.00am -11.00 am)

1. Ymddiheuriadau
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd Dr S Hancock, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Wiggins.

2. Diben yr Ymweliad
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyfarwyddo â safle'r cais a'r ardal o'i gwmpas. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r cais cynllunio gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais wedi cael ei ystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 1 Chwefror 2023 pan gafodd ei ohirio er mwyn caniatáu ymweliad safle.

3. NP/21/0085/FUL - Newid defnydd tir ar gyfer lleoli 9 carafán sefydlog wedi'u hadleoli, seilwaith cysylltiedig, gwelliannau i'r mynediad presennol i'r safle, a gwelliant ecolegol - Parc Gwyliau Meadow House, Stepaside, Arberth, Sir Benfro, SA67 8NS
Atgoffodd y swyddog cynllunio y Pwyllgor bod hwn yn faes carafanau mawr sy'n cynnwys bron i 200 o leiniau carafanau sefydlog. Cafodd pedwar deg saith o'r rhain ganiatâd i newid o 55 o leiniau carafanau teithiol ym mhen gogleddol y parc gwyliau (cyfeirnod: NP/10/0450). Dim ond 37 o'r lleiniau sydd wedi eu newid, gyda'r bwriad o wella cynllun mewnol y maes carafanau a chaniatáu mwy o dirweddu, a 9 o'r lleiniau sy'n weddill oedd yn cael eu cynnig yn awr i'w hadleoli i ardal o dir lle na rhoddwyd caniatâd i leoli carafanau yn flaenorol. Ni chynigiwyd cynyddu nifer cyffredinol y lleiniau o fewn y safle.

Nodwyd bod y cais yn dderbyniol o ran polisi. Byddai'r ardal ble byddai'r carafanau yn cael eu lleoli yn cael ei chynnwys yn weledol o fewn y parc gwyliau, yn enwedig gyda'r triniaethau ffin ychwanegol a gynigir fyddai'n sgrîn ychwanegol ar hyd y ffin â'r ffordd a'r eiddo i'r de. Hefyd byddai'r datblygiad o'i ganiatáu yn destun amod yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynllun Tirwedd a Rheoli Ecolegol yn cyfeirio at yr holl dir o fewn y maes carafanau sydd ym mherchnogaeth yr ymgeisydd yn hytrach na dim ond safle'r cais y bwriedir ail-leoli'r carafanau iddo.

Dywedwyd bod gohebiaeth wedi dod i law oedd yn mynegi pryderon gan gynnwys effaith y carafanau sefydlog arfaethedig ar breifatrwydd yr eiddo preswyl presennol, yn ogystal â'r posibilrwydd o sŵn ac aflonyddwch gan ddeiliaid y safle, ac roedd y gwrthwynebiadau hyn wedi'u dwyn i sylw'r Pwyllgor. Roedd dau o'r gwrthwynebwyr wedi rhoi caniatâd i'r Pwyllgor gael golwg ar safle'r cais o'u gerddi.

Cerddodd y Pwyllgor o amgylch rhan ogleddol y safle lle'r oedd y carafanau wedi'u hadleoli oddi yno ac wedyn edrych i lawr dros safle'r cais o gefn y tŷ clwb, lle'r oedd toeau'r eiddo cyfagos i'w gweld. Nodwyd lleoliad y clawdd oedd i ddisodli'r coed a waredwyd oddi yno. Wedyn cerddodd yr Aelodau i'r safle ei hun; nodwyd bod y clawdd ar ochr y ffordd i'w gadw, ac eithrio'r rhan fyddai'n cael ei newid i ganiatáu creu llain gweledegd gwell wrth y fynedfa i'r maes carafanau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y clawdd wedi'i eithrio o'r llinell goch oedd yn amlinellu safle'r cais, er mwyn sicrhau y byddai'n cael ei gadw; byddai'r carafanau yn cael eu lleoli 7-10 medr o'r clawdd. Holodd yr Aelodau am y lefelau ar y safle, a chytunodd y swyddog i ofyn i gynllun lefelau gael ei gyflwyno cyn i'r Pwyllgor ystyried y cais. Cytunodd y swyddog hefyd i wirio'r adroddiad coedyddiaeth ynghylch coeden benodol oedd wedi'i nodi fel un i'w chadw.

Wedyn cerddodd y Pwyllgor ar hyd y ffordd a gweld y safle o erddi'r eiddo cyfagos 'High Chaparral' a 'Cwm Dingle'.

Ar ôl dychwelyd i'r safle, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth â'r ymweliad safle i ben.